NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Blinatumomab ar gyfer lewcemia lymffoblastig aciwt cromosom-Philadelphia-negatif sydd wedi'i drin yn flaenorol

28 Mehefin 2017

Mae blinatumomab (Blincyto) ar gael ar y GIG fel triniaeth bosibl ar gyfer oedolion sydd â lewcemia lymffoblastig acíwt:

- os yw'r lewcemia yn rhagflaenydd cell-B ac yn gromosom-Philadelphia-negatif
- os nad yw triniaethau eraill wedi gweithio neu mae'r lewcemia wedi dychwelyd.

Os nad ydych yn gymwys i gael y driniaeth dylech allu parhau i gymryd blinatumomab nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

### *Gwybodaeth a chymorth*

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000
- Bloodwise (Ymchwil Lewcemia a Lymffoma yn flaenorol) , 0207 504 2200
- Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU (CancerHelp UK yn flaenorol), 0808 800 4040
- Cymdeithas Canser Lewcemia, 0208 374 4821
- Gofal Lewcemia, 08088 010 444

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2559-9

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights